# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)-14-08 Papur 4 : 16 Hydref 2008

### Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

Mae'r papur hwn yn rhestru'r wybodaeth ddiweddaraf a gafwyd am ddeisebau a ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor. Derbyniwyd llawer o'r wybodaeth ddiweddaraf fel gohebiaeth. Pan yn berthnasol, mae copïau o'r ohebiaeth wedi eu cynnwys fel atodiad PET(3) 14-08 Papur 4A i'r papur hwn.

### (i) P-03-104 Fflworideiddio

### Geiriad y ddeiseb

'Rydym ni sydd wedi llofnodi isod yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru i roi terfyn ar fflworideiddio cyflenwadau dwr cyhoeddus yng Nghymru.'

### Cefndir

Cafodd y ddeiseb yma ei gyflwyno fel e-deiseb gan Mr. John Warman o Gastell-nedd. Casglodd y ddeiseb 25 llofnodion.

Darparodd y deisebwr datganiad ategol, mewn Saesneg yn unig:

'Any attempt to fluoridate a water supply by a government or health body is a means of compulsory medication. The government should spend more money on public health and dental protection also food and drink producers should cut the amount of sugar put into soft drinks and sweets which is having a detrimental effect on children's teeth. There are also toothpastes which contain fluoride. There are alternatives to protecting the nation's teeth without resulting to mass fluoridation.'

Ar 11 Mehefin 2008, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethu Cymdeithasol i ofyn am wybodaeth ar polisi y Llywodraeth Cynulliad. Mae'r Gweinidog wedi ymateb yn awr, ac atodir ei hymateb fel PET(3) 14-08 Papur 4A.

**Gwasanaeth Pwyllgorau**

**Hydref 2008**